Y canllaw i gredydau treth

Rhagymadrodd

Y bwriad wrth wraidd y daflen wybodaeth hon yw ei bod yn ganllaw cyffredinol i gredydau treth ar gyfer teuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd. Y mae'n cynnwys gwybodaeth am bwy sy'n gymwys i gael credydau treth a sut y mae'r gyfundrefn credydau treth yn gweithio yn ymarferol, yn ogystal â thablau 'cyfrifydd parod' i roi syniad ichi o faint y dylech dderbyn. Nid oes gan gredydau treth ddim i wneud â threth incwm. Y maent yn daliadau rheolaidd a wneir gan y llywodraeth i deuluoedd sydd ar incymau isel i ganolig, ac fe allwch hawlio credydau treth hyd yn oed os nad ydych yn talu treth. Os hoffech gael dadansoddiad llawn o'ch hawliad tebygol, neu unrhyw ragor o wybodaeth am gredydau treth, ffoniwch ein llinell gymorth radffôn, os gwelwch yn dda. Yr ydym yn cyflogi arbenigwyr ar hawliau lles a all ddarparu cyngor manwl ynglŷn ag unrhyw agwedd o gais am gredyd treth.

Beth yw credydau treth?

Y mae yna ddau o gredydau treth sy'n cynnig cymorth ariannol i deuluoedd. Fe ellir hawlio'r Credyd Treth Gwaith gan bawb sy'n gyfrifol am blentyn ac sy'n gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos. Fe all rhai gweithwyr eraill nad oes ganddynt blant hefyd wneud cais. Fe ellir hawlio'r Credyd Treth Plant gan deuluoedd sydd â phlant, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio.

Fe gaiff y credydau hyn eu gweinyddu gan swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (y cyfeirir ati yma fel y swyddfa Gyllid), ac yn dibynnu ar eich amgylchiadau y mae'n bosibl bod yn gymwys am un o'r ddau neu'r ddau. Y maent wedi caniatáu i'r swyddfa Gyllid gynorthwyo mwy o bobl nag erioed o'r blaen, gydag amcangyfrif bod naw o bob deg o deuluoedd yn gymwys i gael rhywfaint o gredydau treth.

Os ydych yn hunan-gyflogedig, yna fe ddylech gyfeirio at ein taflen wybodaeth, 'Canllaw credydau treth ar gyfer rhieni sy'n hunan-gyflogedig', sydd ar gael am ddim oddi wrth ein llinell gymorth.

Pwy sy'n cael ei gynnwys yn fy nghais?

Y mae'n rhaid i gyplau wneud cais ar y cyd. Y mae hyn yn cynnwys ble yr ydych yn byw gyda chymar o'r un rhyw. Fe allwch hawlio dros blentyn sydd fel rheol yn byw gyda chi, hyd at y mis Medi ar ôl eu penblwydd yn un ar bymtheg, neu tan eu bod yn 19 mlwydd oed os ydynt mewn addysg llawn amser, nad yw'n addysg uwch neu rai mathau o hyfforddiant di-gyflog yn y gwaith. Fe ellir ymestyn hyn hyd at benblwydd y person ifanc yn 20 oed cyn belled â'u bod yn cwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant a ddechreuwyd cyn iddynt gyrraedd 19 mlwydd oed.

Os yw person ifanc yn dechrau hawlio rhai budd-daliadau neilltuol yn eu rhinwedd eu hunain (megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu Fudd-dal Analluogrwydd), fe fydd hyn yn golygu na allwch mwyach dderbyn credydau treth drostynt. Cysylltwch â'r llinell gymorth am gyngor parthed y mater hwn. Fe ddylech hefyd ymofyn rhagor o gyngor os yw'ch plentyn yn mynd dan ofal a ariannir gan yr awdurdod lleol.

Credydau treth a theuluoedd ar Gymhorthdal Incwm

Y mae credydau treth eisoes wedi disodli amrywiol daliadau, megis ychwanegiadau plant a wnaed yn flaenorol fel rhan o fudd-daliadau fel Lwfans Gofalwr.

Y mae'r llywodraeth hefyd yn bwriadu cael y Credyd Treth Plant i ddisodli'r holl daliadau Cymhorthdal Incwm (CI) a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (LCGsi) ar gyfer plant. Y mae ceisiadau newydd am CI/LCGsi ond yn cynnwys symïau i'r hawliwr a'u cymar, gydag angen gwneud cais ar wahân am Gredyd Treth Plant dros unrhyw blant. Y mae teuluoedd a oedd eisoes yn cael CI/LCGsi yn gychwynnol wedi cael y dewis o barhau i gael symiau dros blant wedi'u cynnwys yn eu dyfarndal. Fodd bynnag, ar ryw adeg ar ôl 2007 fe gaiff y teuluoedd hyn eu symud yn awtomatig i fod ar Gredyd Treth Plant. Bryd hynny, dim ond y symiau i oedolion o CI/LCGsi a delir, gyda thaliad ar wahân o Gredyd Treth Plant yn cael ei wneud dros blant. Fe fydd y rhan fwyaf o rieni yn parhau i dderbyn CI/LCGsi ar gyfradd is. Fodd bynnag, fe all rhai teuluoedd ganfod nad ydynt mwyach yn derbyn CI/LCGsi unwaith y bydd symiau dros eu plant wedi'u tynnu ymaith.

Y mae'r llywodraeth yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o rieni sydd ar CI/LCGsi, o ganlyniad i symud i fod ar Gredyd Treth Plant, naill ai'n well eu byd neu y byddant yn gweld dim newid yng nghyfanswm eu hincwm wythnosol. Fodd bynnag, fe allai nifer fechan iawn orffen yn waeth eu sefyllfa. Yr ydym yn cynhyrchu canllaw byr, 'Credyd Treth Plant a Chymhorthdal Incwm', sydd ar gael am ddim oddi wrth y llinell gymorth.

A allaf hawlio Credyd Treth Gwaith?

Er mwyn hawlio Credyd Treth Gwaith, y mae'n rhaid ichi fod:

- yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn; ac
- yn byw yn y DU a heb fod yn amodol ar reolaeth mewnfudo (gyda rhai eithriadau); ac
- yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos a bod yn gyfrifol am un neu ragor o blant.

Dalier sylw, y mae rhai gweithwyr eraill nad oes ganddynt blant (er enghraifft, gweithwyr anabl) yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith. Os nad ydych yn gofalu

am blentyn, fe ddylech ymofyn cyngor oddi wrth Ganolfan Gynghori leol neu wasanaeth hawliau lles.

Wrth asesu a ydych yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, y mae'r swyddfa Gyllid yn cyfrif yr oriau yr ydych yn eu gweithio fel rheol, gan anwybyddu pob egwyl pryd bwyd di-dâl. Er enghraifft, os ydych yn gweithio oriau tros ben y rhan fwyaf o wythnosau, fe fydd yr oriau ychwanegol hynny yn cael eu cynnwys.

Y mae yna hefyd reolau arbennig i ganiatáu i rai pobl fod yn gymwys a oedd yn gweithio ond sydd bellach wedi rhoi'r gorau i weithio dros dro, gan gynnwys gweithwyr ysgol yn ystod y tymor ysgol yn unig, merched ar Daliad Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth, pobl sydd ar Daliad Mabwysiadu Statudol neu Daliad Tadolaeth, a rhai pobl sydd ymaith o'u gwaith oherwydd eu bod yn wael (cyn belled nad yw hyn yn fwy nag wyth wythnos ar hugain).

Cymorth ychwanegol gan Gredyd Treth Gwaith tuag at gostau gofal plant.
Os ydych yn gwario arian ar ofal plant pan ydych yn gweithio, eich cais am Dreth Gwaith.

A allaf hawlio Credyd Treth Plant?

Er mwyn hawlio Credyd Treth Plant, y mae'n rhaid ichi fod:

- yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn; ac
- yn byw yn y DU a heb fod yn amodol ar reolaeth mewnfudo a bod â'r hawl i breswylio yn y DU; ac
- yn gyfrifol am un neu ragor o blant dibynnol.

Fe ellir hawlio Credyd Treth Plant, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio ac fe'i telir yn ychwanegol at Fudd-dal Plant. Fe all swm y Credyd Treth Plant yr ydych yn ei dderbyn fod yn uwch os oes gennych blentyn sydd ar Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) neu blentyn sydd wedi'i gofrestru fel dall. Y mae hyn oherwydd bod yna swm ychwanegol a adwaenir fel yr 'elfen anabledd' yn cael ei ychwanegu at eich cyfrifiad credyd treth am bob plentyn sydd ar LBA neu wedi'i gofrestru fel dall.

Os yw'ch plentyn yn cael y gyfradd uchaf o elfen ofal y LBA, fe gaiff 'elfen anabledd difrifol' yn rhagor hefyd ei hychwanegu. Fe all Credyd Treth Plant naill ai gael ei dalu ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â Chredyd Treth Gwaith.

Sut y telir credydau treth?

Fe delir Credyd Treth Gwaith (ac eithrio unrhyw elfen gofal plant) i'r rhiant sy'n gweithio. Fe delir Credyd Treth Plant ac unrhyw Gredyd Treth Gwaith tuag at gostau gofal plant i brif ofalwr y plentyn. Fe wneir taliadau fel arfer drwy

drosglwyddo uniongyrchol i gyfrif banc. Fe allwch ddewis taliadau fesul wythnos neu fesul pedair wythnos.

Beth sy'n cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo fy nyfarndal credyd treth?

Y mae faint o gredydau treth yr ydych yn eu derbyn yn dibynnu ar amgylchiadau personol eich teulu ac ar eich incwm blynyddol crynswth. Yr amgylchiadau personol a gaiff eu hystyried yw:

ar gyfer Credyd Treth Gwaith
• pa un ai a ydych yn rhiant unigol ai peidio ynteu yn aelod o gwpl;
• pa un ai a ydych yn gweithio 30 o oriau neu ragor yr wythnos (y mae hi fel arfer yn bosibl ychwanegu eich oriau chi a'ch cymar gyda'i gilydd);
• pa un ai a oes gennych anabledd;
• pa un ai a ydych chi neu'ch cymar yn cael y gyfradd uchaf o ofal LBA;
• pa un ai a oes gennych gostau gofal plant cymwys;
• pa un ai a ydych yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac wedi bod ar rai budd-daliadau neilltuol yn ddiweddar.

ar gyfer Credyd Treth Plant
• nifer y plant dibynnol sydd gennych;
• pa un ai a oes gennych faban o dan un flwydd oed;
• nifer y plant sy'n cael unrhyw gyfradd o LBA neu sydd wedi'u cofrestru fel dall;
• nifer y plant sy'n cael cyfradd uchaf o elfen gofal LBA.

Cyfrifo incwm

Fe fydd eich hawl i gredydau treth hefyd yn dibynnu ar eich incwm trethadwy blynyddol. Er bod credydau treth yn seiliedig ar incwm, ni ddylech dybio bod gennych ormod o arian i fod yn gymwys. Fe warantir rhywfaint o Gredyd Treth Plant ichi cyn belled â bod eich incwm yn llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban o dan un flwydd oed). Mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, os oes gennych fwy nag un plentyn ar LBA ac y mae gennych gostau sylweddol o ran gofal plant cymwys), fe allech gael rhywfaint o gredydau treth, hyd yn oed os yw'ch incwm uwchlaw'r ffigurau hyn. Os ydych yn aelod o gwpl, yna y mae incwm eich cymar yn cael ei gyfrif. Y mae incwm plentyn dibynnol bob amser yn cael ei ddiystyru yn llwyr.

Y mae dyfarndal credyd treth fel arfer yn cael ei asesu ar yr incwm o'r flwyddyn dreth flaenorol. Fodd bynnag, os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfredol yn debygol o fod yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol, fe ddefnyddir amcangyfrifiad o'ch incwm cyfredol yn ei le. Os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfredol yn debygol o fod yn uwch na'ch incwm am y flwyddyn flaenorol o fwy na £25,000, yna fe ddefnyddir yr incwm amcangyfrifedig am y flwyddyn gyfredol, namyn £25,000.

Hyd yn oed os credwch y bydd eich incwm yn rhy uchel i gael credydau treth, y mae'n fuddiol gwneud cais. Fe wna hyn ddiogelu'ch hawl i gael ôl-ddyddio credydau treth pe byddech yn cael gostyngiad annisgwyl mewn incwm.

Pa incwm sy'n cyfrif?

Y mae incwm blynyddol crynswth cyn treth yn cael ei gyfrif. Fel rheol gyffredinol, fe gaiff incwm sy'n drethadwy ei ystyried. Y mae hyn yn cynnwys:

• enillion gros;
• elw trethadwy oddi wrth hunan-gyflogaeth;
• rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol, gan gynnwys Lwfans Gofalwr (gweler isod am y rhai na chaiff eu cyfrif);
• incwm oddi wrth eiddo;
• incwm oddi wrth gyfalaf;
• pensiynau (y wladwriaeth, preifat a galwedigaethol);
• incwm arall yn ddarostyngedig i dreth incwm.

Pa incwm a anwybyddir?

Fe anwybyddir rhai incymau yn llwyr er dibenion credyd treth. Y mae'r rhain yn cynnwys:

• Taliadau cynnal;
• Y rhan fwyaf o fathau o incwm myfyrwyr;
• Taliadau mabwysiadu / maethu (ond nid unrhyw elfen o dâl);
• Lwfans Byw i'r Anabl;
• Lwfans Gweini;
• Budd-dal Plant;
• Lwfans Gwarcheidwad;
• Cymhorthdal Incwm;
• Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm;
• Taliad Profedigaeth;
• Lwfans Mamolaeth;
• Y £100 cyntaf yr wythnos o unrhyw Daliad Mamolaeth Statudol, Taliad Tadolaeth Statudol neu Daliad Mabwysiadu Statudol;
• Lwfans Anabledd Difrifol;
• Budd-dal Analluogrwydd cyfradd isel fyrdymor;
• Budd-dal Analluogrwydd hirdymor trosiannol (hynny yw, yn derbyn taliadau ers cyn y 13eg o Ebrill, 1995);
• Budd-dal Anafiadau Diwydiannol.

Nid yw'r rhestr hon yn drwyadl – y mae rhai mathau eraill o incwm hefyd yn cael eu hanwybyddu.

Beth sy'n digwydd os oes gennyf lawer o gyfalaf neu gynilion?
Nid oes yna gyfyngiad cyfalaf sy'n rhwystro cais am gredydau treth. Yn hytrach, fe gaiff unrhyw incwm trethadwy a dderbyniwch oddi wrth eich cyfalaf ei gyfrif; er enghraifft, llog ar eich cynilion (oni bai bod hwn mewn cyfrif cynilion di-dreth megis ISA).

Faint o gredydau treth a dderbyniaf?

Y mae'r swyddfa Gyllid yn defnyddio amgylchiadau'ch teulu i gyfrifo 'uchafswm hawl credyd treth'. Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, y mae gennych hawl awtomatig i gael yr uchafswm Credyd Treth Plant. Neu fel arall, y mae arnoch angen cymharu'ch incwm trethadwy blynyddol i bennu trothwy. Y mae hyn yn £14,495 os ydych ond yn gymwys am Gredyd Treth Plant ac yn £5,220 os ydych hefyd yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.
(ble yr ydych chi neu'ch cymar yn gweithio 16 o oriau yr wythnos neu ragor).

Os yw'ch incwm ar neu islaw'r trothwy, fe wnewch dderbyn uchafswm y dyfarndal o gredydau treth ar gyfer eich amgylchiadau. Os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn uwch na'r trothwy perthnasol, fe gaiff y dyfarndal ei ostwng - am bob £1 o incwm sydd gennych uwchlaw'r trothwy, fe gaiff uchafswm eich hawl credyd treth ei ostwng 37 ceiniog. Fodd bynnag, fe warantir eich bod yn cael o leiaf £545 y flwyddyn, cyn belled â bod eich incwm trethadwy blynyddol yn llai na £50,000. Fe adwaenir y taliad hwn fel yr elfen teulu o Gredyd Treth Plant. Os yw'ch incwm yn fwy na £50,000 y flwyddyn, fe gaiff yr elfen teulu ei gostwng yn raddol.

Defnyddio'r tablau
Y mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys amryw o dablau cyfrifydd parod i'ch cynorthwyo chi i amcangyfrif faint o gredydau treth y gallech gael. Er bod credydau treth fel arfer yn cael eu cyfrifo fel dyfarndal blynyddol, fe ddengys y tablau'r symiau cyfwerth wythnosol. Y mae'r holl symiau wedi'u talgrynnu i lawr i'r bunt agosaf. Cofiwch fod eich dyfarndal fel rheol wedi'i seilio ar eich incwm am y flwyddyn flaenorol.

Os nad ydych chi na'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, defnyddiwch Dabl 1 – y mae yna golofnau gwahanol, yn dibynnu ar nifer y plant sydd gennych a faint ohonynt sy'n anabl. Fe gaiff plentyn ei gategoreiddio fel anabl os ydyw wedi'i gofrestru fel dall neu os ydyw'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl ar unrhyw gyfradd. Defnyddiwch y golofn briodol i gael syniad o faint o gredydau treth y gallai teulu yn eich amgylchiadau chi ei dderbyn (cofiwch mai symiau wythnosol a ddefnyddir).

Os yw un ai chi neu'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, y mae'r tabl y dylech droi ato yn dibynnu ar nifer y plant yn eich teulu a faint ohonynt sy'n anabl. Fe gaiff plentyn ei gategoreiddio fel anabl os ydyw wedi'i gofrestru fel dall neu os ydyw'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

- os oes gennych un plentyn ac y mae'r plentyn hwnnw'n anabl, defnyddiwch Dabl 2;
- os oes gennych ddau o blant ac y mae un ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 3;
- os oes gennych ddau o blant ac y mae'r ddau ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 4;
- os oes gennych dri o blant ac y mae un ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 5;
- os oes gennych dri o blant ac y mae dau ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 6.

Beth yw'r sefyllfa os ydych yn talu am ofal plant?
Fe all swm y credydau treth yr ydych yn eu derbyn fod yn uwch os ydych yn talu am ofal plant cymwys. Y mae gan Dablau 2-6 golofnau ychwanegol sy'n dangos y dyfarndal credydau treth y gallai rhieni'u derbyn ble y maent yn talu'r uchafswm tuag at ofal plant cymwys. Gweler yr adran gynharach ar 'Cymorth ychwanegol gan Gredyd Treth Gwaith tuag at gostau gofal plant' am fanylion o ba bryd y caiff gofal plant ei gyfrif. Nid yw cymorth gyda chostau gofal plant yn bosibl os ydych ond yn gymwys am Gredyd Treth Plant.

Nodiadau am y Tablau
*__Nodyn am Dabl 1:__
Os oes gennych faban o dan un flwydd oed, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.

Os oes gennych blentyn sy'n derbyn y gyfradd uchaf o elfen gofal LBA, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.

****Nodiadau am Dablau 2,3,4,5 a 6:**
Y mae'r tablau hyn yn rhagdybio bod teuluoedd sydd ag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau yr wythnos neu fwy.

Fe ellir gwneud taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n llai nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun 50 oed neu hŷn sy'n dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Tabl 1: Cymwys am Gredyd Treth Plant yn unig*

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Teulu gydag 1 plentyn. Y mae'r plentyn hwnnw yn anabl (£) wythnosol	Teulu gyda 2 o blant. Y mae 1 plentyn yn anabl (£) wythnosol	Teulu gyda 2 o blant. Y mae'r ddau yn anabl (£) wythnosol	Teulu gyda 3 o blant. Y mae 1 plentyn yn anabl (£) wythnosol	Teulu gyda 3 o blant. Y mae 2 yn anabl (£) wythnosol
£14,495 ac is	92	128	175	163	210
£20,000	53	89	136	124	171
£25,000	18	53	100	89	136
£30,000	10	18	64	53	100
£35,000	10	10	29	17	64
£40,000	10	10	10	10	29
£45,000 - £50,000	10	10	10	10	10
£55,000	4	4	4	4	4

Tabl 2: Teulu sy'n Gweithio sydd ag 1 plentyn, y mae'r plentyn hwnnw yn anabl**

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau Gofal plant cymwys (£) wythnosol		Yn cynnwys uchafswm costau Gofal plant (£) wythnosol
£5,220 neu is	158		298
£10,000	138		278
£15,000	102		242
£20,000	67		207
£25,000	31		171
£30,000	10		136
£35,000	10		100
£40,000	10		64
£45,000	10		29
£50,000	10		10
£55,000	4		4

Tabl 3: Teulu sy'n Gweithio sydd â 2 o blant, y mae un ohonynt yn anabl**

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau Gofal plant cymwys (£) wythnosol		Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	194		334	434
£10,000	173		313	413
£15,000	138		278	378
£20,000	102		242	342
£25,000	67		207	307
£30,000	31		171	271
£35,000	10		135	235
£40,000	10		100	200
£45,000	10		64	164
£50,000	10		29	129
£55,000	4		4	93

Tabl 4: Teulu sy'n Gweithio sydd â 2 o blant, y mae'r ddau ohonynt yn anabl **

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau Gofal plant cymwys (£) wythnosol		Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 or under	241		381	481
£10,000	220		360	460
£15,000	185		325	425
£20,000	149		289	389
£25,000	114		254	354
£30,000	78		218	318
£35,000	42		182	282
£40,000	10		147	247
£45,000	10		111	211
£50,000	10		76	176
£55,000	4		40	140

Tabl 5: Teulu sy'n Gweithio sydd â 3 o blant, y mae un ohonynt yn anabl**

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau Gofal plant cymwys (£) wythnosol		Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	229		369	469
£10,000	209		349	449
£15,000	173		313	413
£20,000	138		278	378
£25,000	102		242	342
£30,000	67		207	307
£35,000	31		171	271
£40,000	10		135	235
£45,000	10		100	200
£50,000	10		64	164
£55,000	4		29	129

Tabl 6: Teulu sy'n Gweithio sydd â 3 o blant, y mae dau ohonynt yn anabl**

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau Gofal plant cymwys (£) wythnosol		Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys uchafswm Gofal plant am 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 or under	276		416	516
£10,000	256		396	496
£15,000	220		360	460
£20,000	185		325	425
£25,000	149		289	389
£30,000	113		253	353
£35,000	78		218	318
£40,000	42		182	282
£45,000	10		147	247
£50,000	10		111	211
£55,000	4		76	176

Sut ydwyf yn hawlio credydau treth?

Y mae Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu gweinyddu gan swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac y mae'r ddau fudd-dal yn cael eu hawlio ar ffurflen gais TC600. Y mae hon ar gael oddi wrth eich swyddfa Gyllid leol neu drwy gyfrwng y Llinell Gymorth Credydau Treth ar Rif Ffôn 0845 300 3900 (Ffôn testun 0845 300 3909). Fe ellir hawlio hefyd fel rheol drwy gyfrwng gwefan y swyddfa Gyllid, ond y mae'r cyfleuster hwn wedi'i ohirio ar yr adeg yr ysgrifennir hyn. Fe fydd arnoch angen darparu manylion am eich incwm trethadwy am y flwyddyn dreth flaenorol. Fe ellir cael y wybodaeth hon oddi wrth eich P60, eich cyflogebau o'r gwaith neu oddi wrth ddatganiad blynyddol o fudd-dal trethadwy oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Ôl-ddyddio credydau treth
Fe ellir ôl-ddyddio ceisiadau hyd at dri mis. Ar yr adeg yr ysgrifennir hyn, nid oes gan y ffurflen hawlio adran yn eich gwahodd chi i ofyn am ôl-ddyddio. Os ydych yn dymuno gofyn am hyn, fe ddylech naill ai atodi cais ysgrifenedig am gael ôl-ddyddio wrth eich pecyn hawlio neu ffonio'r Swyddfa Credydau Treth parthed y mater hwn.

Cael penderfyniad ar eich cais
Unwaith y mae'r swyddfa Gyllid wedi prosesu'ch cais, fe ddylent anfon hysbysiad o benderfyniad atoch. Fe wna hyn amlinellu nid yn unig faint o gredydau treth a delir ichi ond hefyd yr amgylchiadau teuluol y seiliwyd eich dyfarndal arnynt (er enghraifft, eich incwm trethadwy blynyddol, cyfanrif y plant dibynnol sydd gennych, a nifer y plant a gategoreiddir fel anabl). Y mae'n bwysig eich bod yn gwirio'r wybodaeth hon i sicrhau'i bod yn gywir. Os nad ydyw, yna fe allai arwain at naill ai tandaliad neu ordaliad o gredydau treth.

Ar ddiwedd y flwyddyn dreth

Unwaith y caiff ei ddyfarnu, y mae dyfarndal credyd treth fel rheol yn para tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Y mae'r swyddfa Gyllid wedyn yn cynnal adolygiad blynyddol. Y maent yn rhoi pecyn adolygu ichi sy'n amlinellu'r manylion personol a ddefnyddir i gyfrifo'ch dyfarndal presennol, ac y mae'n rhaid i chi'i wirio er cywirdeb. Fe ofynnir ichi gadarnhau neu gywiro'r wybodaeth hon a hefyd gadarnhau'ch incwm trethadwy blynyddol am y flwyddyn sydd newydd orffen.

Efallai na fydd yn rhaid i deuluoedd sydd ond yn derbyn yr elfen teulu sylfaenol o Gredyd Treth Plant gwblhau ffurflen datganiad. Os nad yw'ch manylion personol wedi newid ac os yw'ch incwm o fewn rhai bandiau neilltuol a amlinellir yn y pecyn adolygu, fe ddylai dyfarndal o'r elfen teulu barhau yn awtomatig. Fe ddylai'ch pecyn adnewyddu wneud hi'n eglur os yw hyn yn gymwys i chi. Fodd bynnag, os oes yna unrhyw newidiadau perthnasol wedi bod yn eich amgylchiadau, y mae'n rhaid ichi hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth. Y mae'n rhaid i bob teulu arall gwblhau'r ffurflen datganiad.

Wedi i'r swyddfa Gyllid dderbyn cadarnhad o'ch manylion, fe wnânt ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynorthwyo i gyfrifo'ch dyfarndal credyd treth am y flwyddyn dreth newydd. Fe wnânt hefyd ddefnyddio'r manylion hyn i wirio pa un ai a ydych wedi derbyn y swm cywir o gredydau treth yn y flwyddyn sydd newydd fynd heibio.
Os na thalwyd digon o gredydau treth ichi, fe ddylech dderbyn cyfandaliad am unrhyw ôl-ddyled. Os gordalwyd credydau treth ichi, fe all y swyddfa Gyllid geisio ag adennill y swm gormodol a dalwyd – fel arfer drwy ostwng eich dyfarndal am y flwyddyn dreth newydd (gweler yr adran isod o dan y pennawd 'Beth sy'n digwydd os ydwyf wedi cael gordaliad o gredydau treth').

Fe all gymryd sawl mis i'r swyddfa Gyllid dderbyn cadarnhad o'ch manylion ac i brosesu'ch dyfarndal newydd. Yn y cyfamser, yn yr ychydig fisoedd cyntaf o'r flwyddyn dreth, y maent yn gwneud 'taliadau dros dro', yn seiliedig ar yr incwm a'r amgylchiadau y gwnaethoch adrodd amdanynt ddiwethaf.

Newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn dreth

Er y bydd dyfarndal credyd treth fel rheol yn weithredol tan ddiwedd y flwyddyn dreth, fe ellir ei gyfaddasu yn ystod y flwyddyn os oes yna newid perthnasol mewn amgylchiadau. Fe fydd yn rhaid dweud wrth y swyddfa Gyllid am rai newidiadau o fewn un mis neu fe fyddwch yn wynebu cosb o £300. Y rhain yw:

- newid yn nifer yr oedolion sy'n hawlio (er enghraifft, mynd o fod yn gwpl i fod yn rhiant unigol, neu fel arall);
- £10 neu ragor o ostyngiad mewn costau cyfartalog gofal plant am o leiaf bedair wythnos yn olynol;
- os ydych yn mynd dramor am fwy nag wyth wythnos (12 wythnos os ewch dramor o ganlyniad i waeledd neu brofedigaeth).
- os ydych yn rhoi'r gorau i weithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos;
- os yw'ch oriau gwaith yn gostwng o 30 o oriau'r wythnos neu ragor i lai na 30 o oriau;
- yr ydych yn peidio â bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sy'n ddibynnol; er enghraifft, os nad ydynt mwyach fel rheol yn byw gyda chi;
- y mae person ifanc yn eich teulu yn darfod â bod yn gymwys am gymorth drwy gyfrwng credydau treth. Er enghraifft, fe allai hyn ddigwydd oherwydd bod person ifanc yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu oherwydd eu bod yn dechrau hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm yn eu rhinwedd eu hunain;
- os yw plentyn neu berson ifanc sy'n ddibynnol yn marw.

Nid oes yn rhaid dweud wrth yr awdurdodau am newidiadau eraill mewn amgylchiadau tan ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, fe all fod er lles eich buddiannau ichi ddweud wrth yr awdurdodau am rai newidiadau yng nghynt. Y

mae yna reol tri mis ynglŷn ag ôl-ddyddio, sy'n golygu y gallech golli arian os ydych yn oedi cyn dweud wrth y swyddfa Gyllid am newid a fyddai'n cynyddu'ch hawl credyd treth. Y mae'r adran gynharach, 'Beth a gymrir i ystyriaeth wrth gyfrifo fy nyfarndal credyd treth?', yn rhoi trosolwg cryno o'r mathau o amgylchiadau sy'n effeithio ar eich dyfarndal.

Dechrau cael LBA am y tro cyntaf neu gael codiad mewn LBA

Y mae yna rai eithriadau i'r terfyn amser o dri mis ar gyfer ôl-ddyddio. Os dyfarnir LBA i'ch plentyn neu os cynyddir dyfarndal LBA presennol i'r gyfradd uchaf ar gyfer gofal personol, fe all hyn arwain at daliadau ychwanegol o Gredyd Treth Plant. Pan ydych yn gwneud cais am LBA dros eich plentyn, (neu yn gofyn am gynyddu dyfarndal presennol), sicrhewch eich bod yn gadael i'r swyddfa Credydau Treth wybod. Cyn belled â'ch bod yn dweud wrth y Swyddfa Credydau Treth eich bod chi'n gwneud hyn ac yna yn ailgysylltu i'w hysbysu pan gewch chi ddyfarndal, fe ellir ôl-ddyddio unrhyw gredydau treth ychwanegol yn unol â'r LBA, hyd yn oed pe gallai hyn fod am fwy na thri mis. Fe ddylech gymryd camau cyffelyb os oes gennych chi neu'ch cymar broblemau iechyd ac yr ydych yn hawlio LBA yn eich rhinwedd eich hun.

Os oes yna newid mewn amgylchiadau yn gostwng eich dyfarndal credyd treth, fe gaiff y gostyngiad hwnnw bob amser ei ôl-ddyddio yn llawn. Os hoffech osgoi gordaliadau neu dandaliadau, fe ddylech hysbysu'r Swyddfa Credydau Treth ynglŷn ag unrhyw newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau fel y maent yn digwydd.

Newidiadau mewn Incwm

Os oes yna newid yn eich incwm, fe allwch ddewis dweud wrth y swyddfa Gyllid yn syth neu'i adael tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Os yw'ch incwm blynyddol yn cynyddu, ni chaiff effaith ar eich dyfarndal am y flwyddyn gyfredol oni bai ei fod wedi cynyddu fwy na £25,000. Fodd bynnag, fe gaiff yr incwm uwch ei gyfrif ar gyfer credydau treth yn y flwyddyn dreth ddilynol. Oherwydd hyn, y mae'n syniad da dweud wrth y swyddfa Gyllid cyn gynted ag y mae'ch incwm yn cynyddu. Os ydych yn dewis aros tan ddiwedd y flwyddyn cyn dweud wrthynt, y mae yna risg y telir gormod o 'daliadau dros dro' ichi wrth ichi aros am i'ch cais gael ei adnewyddu (gweler yr adran gynharach, 'Ar ddiwedd y flwyddyn dreth'). Y mae hyn oherwydd y bydd eich taliadau dros dro am y rhan gynharaf o'r flwyddyn dreth newydd yn cael eu seilio ar incwm sy'n artiffisial o isel. Yn y pen draw, os ydych yn dymuno osgoi gordaliadau neu dandaliadau credydau treth, y mae er lles eich buddiannau ichi ddweud wrth yr awdurdodau am godiadau neu ostyngiadau sylweddol mewn incwm fel y maent yn digwydd.

Beth sy'n digwydd os oes yna ormod o gredydau treth wedi'u talu imi?

Os gordalwyd credydau treth ichi, fe fydd y swyddfa Gyllid fel rheol yn ceisio ag adennill y swm gormodol a dalwyd drwy ostwng eich taliadau credyd treth. Ni ddylai'r swyddfa Gyllid adennill gordaliad a darddodd o ganlyniad i 'wall gan swyddogion', cyn belled ag na ellid fod wedi disgwyl yn rhesymol ichi sylweddoli eich bod yn cael eich gordalu. Yn ychwanegol, y mae gan y swyddfa Gyllid y disgresiwn i beidio ag adennill gordaliad os gallwch ddangos y bydd hyn yn achosi cyni ichi.

Ewch am ragor o gyngor os dywedir wrthych gan y swyddfa Gyllid eich bod wedi'ch gordalu neu'i bod yn debygol eich bod wedi'ch gordalu. Os ydych yn anghydweld bod yna ordaliad wedi digwydd neu'n amau swm y gordaliad, fe allwch gyflwyno apêl. Fodd bynnag, os ydych yn derbyn eich bod wedi'ch gordalu, nid oes yna hawl apelio yn erbyn penderfyniad y swyddfa Gyllid i adennill yr arian hynny. Yn hytrach, fe allwch ofyn iddynt ddefnyddio'u disgresiwn i beidio ag adennill. Os ydynt yn mynnu adennill, fe allwch herio hyn drwy gyfrwng trefn gwyno'r swyddfa Gyllid. Os ydych yn anghydweld ag adennill gordaliad ar sail gwall gan swyddogion, fe ddylai'r swyddfa Gyllid ohirio rhagor o ddidyniadau tan y byddant wedi gwneud penderfyniad ar eich achos.

Y mae Cyswllt Teulu yn cynhyrchu taflen wybodaeth o'r enw 'Gordaliadau Credydau Treth', sy'n ymdrin â'r materion hyn yn llawer mwy manwl. Y mae hwn ar gael am ddim oddi wrth y llinell gymorth.

Sut y gallaf gael newid penderfyniad parthed credyd treth?

Fe all y swyddfa Gyllid adolygu penderfyniad os oes yna newid mewn amgylchiadau, os ydynt wedi gwneud camgymeriad, neu os ydynt yn credu bod eich dyfarndal yn anghywir. Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad gan y swyddfa Gyllid, fe allwch apelio. Y terfyn amser ar gyfer apelio yw 30 o ddiwrnodau oddi ar ddyddiad y penderfyniad. Y mae'n rhaid i apêl fod yn ysgrifenedig ac y mae'n rhaid iddi enwi'r rhesymau pam eich bod yn apelio. Fe ellir gwneud apeliadau ar ffurflen TC623, a geir ar ddiwedd y daflen WTC/AP sydd ar gael oddi wrth y swyddfa Gyllid. Oni bai'ch bod yn adrodd am newid mewn amgylchiadau, y mae'n well fel arfer gofyn am apêl nag am adolygiad. Y rheswm am hyn yw na chaiff y terfyn amser ar gyfer apelio o 30 o ddiwrnodau'i ymestyn os gofynnwch am adolygiad ac y mae hyn yn cael ei wrthod. Y mae apeliadau hwyr weithiau yn bosibl hyd at un flwyddyn a 30 o ddiwrnodau ar ôl penderfyniad. Fodd bynnag, fe gaiff apêl hwyr ond ei chaniatáu mewn 'amgylchiadau arbennig', ac felly fe ddylech bob amser ymdrechu i sicrhau'ch bod yn cyrraedd y terfyn amser arferol ar gyfer cyflwyno apêl.

Credydau Treth a mathau eraill o gymorth i deuluoedd ar incymau isel

I gael cyngor manwl ynglŷn â sut y bydd cais am gredyd treth yn effeithio ar unrhyw rai o'r budd-daliadau a gewch ar hyn o bryd, a fyddech cystal â ffonio'n llinell gymorth rad ac am ddim.

Cymhorthdal Incwm (CI) a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (LCGsi)
Y mae Credyd Treth Plant yn disodli taliadau dros blant a wnaed gyda CI neu LCGsi. Gweler yr adran uchod ar 'Credydau Treth a theuluoedd ar Gymhorthdal Incwm' am fwy o fanylion.

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor
Y mae taliadau parhaus o gredydau treth yn cael eu cyfrif fel incwm wrth gyfrifo ad-daliadau rhent a threth cyngor (oni bai'ch bod dros 60, ac os felly fe gânt eu hanwybyddu). Fodd bynnag, y mae taliadau am ôl-ddyledion credydau treth yn aml yn cael eu diystyru. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am ragor o gyngor.

Budd-daliadau Iechyd
Fe allwch gael cymorth llawn gyda chostau iechyd os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na throthwy penodol (£15,050 ar yr adeg yr ysgrifennir hyn) ac yr ydych yn cael:

• Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant; neu
• Gredyd Treth Gwaith gydag elfen anabledd; neu
• Gredyd Treth Plant ac nad ydych yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.

Talebau am lefrith, ffrwythau a llysiau am ddim
Os ydych yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan bedair oed, ac yr ydych yn derbyn Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith) ac y mae gennych incwm trethadwy blynyddol o lai na £14,495, fe allwch fod yn gymwys i gael talebau y gallwch eu defnyddio tuag at lefrith, ffrwythau ir a llysiau ir. Fe allech hefyd fedru cael mynediad at fitaminau atodol am ddim. Fe ddarperir y cymorth hwn gan y Cynllun Dechrau Iach, ac y mae mwy o wybodaeth am sut i gael mynediad at dalebau ar gael ar Linell Gymorth Dechrau Iach ar Rif Ffôn: 0845 607 6823 Gwefan: http://www.healthystart.nhs.uk

Cinio Ysgol Am Ddim
Fe fyddwch yn gallu cael cinio ysgol am ddim os oes gennych hawl i gael Gredyd Treth Plant (ond nad ydych yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith) ac y mae'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na £14,495.

Grant Mamolaeth a Grantiau Angladd Cychwyn Cadarn
Fe allwch fedru hawlio'r rhain os ydych yn cael:

• Credyd Treth Gwaith gyda'r elfen anabledd neu anabledd difrifol; a/neu
• Gredyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r 'elfen teulu' sylfaenol.

Cysylltiadau ar gyfer rhagor o wybodaeth a chyngor

Os hoffech ragor o gyngor parthed credydau treth neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, a fyddech cystal â ffonio llinell gymorth Cyswllt Teulu, rhif Ffôn: 0808 808 3555 Llun-Gwener, 10.00 y bore – 4.00 y pnawn; Llun, 5.30 y pnawn - 7.30 yr hwyr; e-bost: helpline@cafamily.org.uk Y mae Cyswllt Teulu yn cyflogi arbenigwyr ar hawliau lles sy'n gallu rhoi cyngor manwl am unrhyw agwedd o hawlio credydau treth. Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o rychwant a gynhyrchir gan Cyswllt Teulu, sy'n cynnwys '*Benefits, tax credits and other financial help*' a '*Working*'. Am gopïau, ac i ganfod am daflenni gwybodaeth eraill, ffoniwch linell gymorth Cyswllt Teulu.
Y mae cyngor ar y ffôn hefyd ar gael oddi wrth Llinell Gofalwyr: 0808 808 7777 (Mercher ac Iau, 10.00 y bore -12 .00 hanner dydd & 2.00 – 4.00 y pnawn).

Os byddai'n amgenach gennych siarad â rhywun wyneb yn wyneb, yna fe ddylech geisio â chysylltu â'ch Canolfan Gynghori leol neu brosiect hawliau lles.

Fe allwch gysylltu â Llinell Gymorth Credydau Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Ffôn: 0845 300 3900 (Ffôn Testun: 0845 300 3909). Y mae llinellau yn agored o 8.00 y bore – 8.00 yr hwyr, 7 niwrnod yr wythnos.

Cyhoeddwyd gan Cyswllt Teulu
Ysgrifennwyd gan Derek Sinclair
Dyluniwyd gan Creatiscope Design Ltd, UK
Argraffwyd gan Hobbs the Printers

Y mae Cyswllt Teulu yn diolch i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am eu cymorth ariannol gyda chynhyrchu'r daflen wybodaeth hon.